Enw ______________________



DARLLENWCH
Luc 2: 22-40



ADNOD ALLWEDDOL
Luc 2: 30

# Gwers 4 Y Nadolig Cyntaf – Yn y Deml

Pan fyddwn ni'n cael anrhegion Nadolig, mi ddylen ni ddweud "Diolch" amdanyn nhw. Aeth Joseff a Mair â Iesu i'r Deml i ddweud "Diolch" wrth Dduw, ond pan aethon nhw yno, fe gawson nhw syndod!




**C Ym mha ddinas oedd y Deml? Rhowch linell o dan yr ateb cywir.** 1

Bethlehem    Nasareth    Jerwsalem

**C Pa offrwm roedden nhw'n gorfod ei roi yn ôl y Gyfraith? (Gweler adnod 24)** 2

**C Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau yn y lluniau i weld enw'r dyn a welodd Mair a Joseff yn y Deml.** 1



___ ___ ___ ___ ___ ___

**C Edrychwch yn y Darlleniad o'r Beibl i weld sut ddyn oedd hwn ac atebwch CYWIR neu ANGHYWIR i'r brawddegau isod:-** 5

Roedd yn byw yn Jerwsalem. ..................

Roedd yn ddyn da. ..................

Roedd yr Ysbryd Glân arno. ..................

Roedd Duw wedi dweud wrtho na fyddai'n gweld Meseia'r Arglwydd. ..................

Arweiniodd yr Ysbryd Glân ef i'r Deml. ..................

**C Ysgrifennwch YN EICH GEIRIAU EICH HUNAN beth wnaeth y dyn pan welodd Iesu.** 2

Roedd y dyn hwn yn un o'r ychydig bobl oedd yn deall pam roedd Duw wedi anfon Ei Fab. Hyd yn oed heddiw, 2000 o flynyddoedd yn ddiweddarach, mae llawer o bobl heb ddeall pam y daeth yr Arglwydd Iesu.

**C Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol.** 1


**C Rhowch gylch o gwmpas y ddau grŵp o bobl y mae Simeon yn sôn amdanynt wrth gyfeirio at Iesu fel y 'Goleuni'.** 2

Y Galileaid     Y Cenhedloedd     Yr Israeliaid     Y Groegiaid

# YSGOL EIRIAU

**Defnyddiwch y Darlleniad o'r Beibl i ateb y cwestiynau isod am y broffwydes.** 4

1. O ba lwyth oedd hi?
2. Pwy oedd ei thad?
3. A oedd hi'n ifanc ynteu'n hen?
4. Beth roedd hi'n ei wneud yn y deml?



**C Edrychwch ar yr 'ysgol' ar y grid uchod. Beth oedd enw'r broffwydes?** 1

Felly, roedd geni Iesu wedi gwneud llawer o bobl yn hapus iawn. (Yn y wers ddiwethaf roedd y bugeiliaid yn llawenhau ac, yn y wers hon, Simeon ac Anna sy'n llawen - heb anghofio Mair a Joseff!)  Ond fyddai bywyd yr Arglwydd Iesu i gyd ddim yn llawen.

**C Pa adnod sy'n dweud wrthym y byddai Mair yn cael tristwch mawr?** 1

**Ysgrifennwch isod beth rydych wedi'i ddysgu o'r gwersi hyn am yr Arglwydd Iesu yn dod i'r byd. Ydych chi wedi diolch i Dduw am yr anrheg Nadolig gyntaf a gorau erioed?**

## Nadolig Llawen Iawn i Chi!!

"...bod y Tad wedi anfon ei Fab yn Waredwr y Byd."
**I Ioan 4:14**

**cyfanswm**

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157
Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru. Addasiad Cymraeg gan Siân Roberts

Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai rhwng 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120